PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Ordinhad 10:

# Dirprwyo Pwerau i Gadeiryddion Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 24 Ebrill, 2020 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio |
| **Statws y Polisi:** | Newydd |
| **Fersiwn:** | 1.0 |
| **Dyddiad adolygu:** | Ebrill 2023 |

# Ordinhad 10:
# Dirprwyo Pwerau i Gadeiryddion Pwyllgorau

1. Awdurdodir Cadeiryddion y Cyngor, y Senedd a phob Pwyllgor ohono drwy hyn i benderfynu ar faterion brys ar ran y corff y maent yn ei gadeirio.

2. At ddibenion yr Ordinhad hwn, bernir bod 'materion brys' yn:

   [a] faterion yn ymwneud â gweithredu'n fanwl faterion a pholisïau y penderfynwyd arnynt eisoes gan y corff dan sylw
   [b] ymwneud â chyflawni busnes arferol nad yw'n ddadleuol, neu
   [c] faterion y byddai oedi yn eu cylch yn debygol o greu anhawster diangen a/neu beryglu buddiannau'r Brifysgol.

3. Rhoddir gwybod am unrhyw gamau gweithredol a gymerir gan Gadeirydd o dan delerau'r Ordinhad hwn yn ysgrifenedig i gyfarfod nesaf y corff dan sylw.

4. Cyn cymryd unrhyw gamau gweithredol o'r fath, gall y Cadeirydd ymgynghori'n anffurfiol ag unrhyw aelodau o'u Pwyllgor sy'n briodol yn eu barn hwy.

5. Bydd gan unrhyw Gadeirydd sy'n ystyried bod mater brys a gyfeiriwyd ar gyfer penderfyniad gweithredol yn haeddu ystyriaeth gan y corff dan sylw y pŵer i gynnull cyfarfod arbennig o'r corff i ystyried y mater penodol hwnnw. Bydd unrhyw gyfarfod arbennig o'r fath yn cael ei gynnal, naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithiol, o fewn 7 diwrnod ar ôl i'r Cadeirydd benderfynu cynnull cyfarfod, beth bynnag fo darpariaethau unrhyw Reolau Sefydlog perthnasol i'r corff hwnnw; ystyrir bod y rheolau hynny wedi eu hatal dros dro i ganiatáu i'r cyfarfod gael ei gynnal.